# Astudiaeth Achos

## Cwt beics

Ysgol Gynradd Holton

Y Barri, Bro Morgannwg

Ysgol Gynradd



Ffigur 1: Cwt beics newydd yn Ysgol Gynradd Holton. *©Ysgol Gynradd Holton*

## Cefndir

Ysgol drefol yng nghanol y Barri yw Ysgol Gynradd Holton, yn gwasanaethu 402 o ddisgyblion o wahanol gefndiroedd a 25 o genhedloedd.
Ysgol Gynradd Holton oedd un o 12 ysgol beilot y Cynllun Ysgolion Teithio Llesol (ATSP) o 2022 ymlaen, gan dderbyn cefnogaeth gan swyddog y Cynllun i lunio'r cynllun teithio llesol.

## Elfennau allweddol

Un mater allweddol a nodwyd yng nghynllun teithio llesol ysgol Holton oedd yr angen am well storfa i feiciau a sgwteri ar y safle. I fynd i'r afael â hyn, cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Rhagfyr 2022 gyda hyrwyddwr teithio llesol yr ysgol a swyddog teithio llesol yr awdurdod lleol.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, a thrwy gydweithio rhwng swyddog yr ATSP a hyrwyddwr yr ysgol, sicrhawyd cyllid ar gyfer y cwt beics gan yr awdurdod lleol, trwy ddyraniad craidd Cronfa Teithio Llesol 2022/23. Cafodd y cwt ei adeiladu a'i osod gan gontractwr trydydd parti erbyn Rhagfyr 2023.

## Canlyniadau

Alisha Gibson, athrawes a hyrwyddwr Ysgol Gynradd Holton, oedd y prif sbardun y tu ôl i greu'r cwt beics. Pwysleisiodd "bwysigrwydd cael cwt beics mewn ysgol gynradd a'r modd y mae hynny'n effeithio'n gadarnhaol ar ein plant a'u teithiau i'r ysgol."

"Ers inni gael y cwt beics, mae mwy o ddisgyblion a theuluoedd yn reidio beic neu sgwter i'r ysgol. Mae teuluoedd yn teimlo bod eu heiddo'n ddiogel ac maen nhw'n hapus gyda'r ffordd mae'n gweithio. Siaradodd athrawon am y cwt gyda'u dosbarthiadau mewn cyfarfodydd dosbarth yn gynharach eleni."

Yn gyffredinol, bu'r cynllun teithio llesol yn help i sicrhau cyllid ar gyfer y cyfleuster angenrheidiol hwn i storio beiciau a sgwteri, a fydd yn allweddol er mwyn caniatáu i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau newid ymddygiad fel 'parcio a rhodio' ar y daith i'r ysgol neu mewn her teithio llesol i'r ysgol gyfan, fel Ymgyrch Gerdded a Beicio mawr Sustrans.

Ar ben hynny, bu'r cynllun ysgolion teithio llesol yn sbardun i Ysgol Gynradd Holton weithio tuag at eu Gwobr Ysgol Teithio Llesol a bodloni'r meini prawf cymhwyso angenrheidiol er mwyn ennill y wobr, gan fod pawb erbyn hyn yn gallu dod â'u beiciau a'u sgwteri yn ddiogel i'r ysgol.

## Dyfyniadau

**"Ers cael y cwt beics mae teithio i'r ysgol yn hwyl"**
*– Disgybl Blwyddyn 5*

**"Rwy'n hoffi reidio fy sgwter i'r ysgol"**
*– Disgybl Blwyddyn 3*

**"Rwy'n gallu cadw fy meic yn ddiogel yn y cwt"**
*– Disgybl Blwyddyn 4*